Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pentreuchaf

Pentreuchaf
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8DZ

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pentreuchaf

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Pentreuchaf |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 93 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 67 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 13 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 14.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 77.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/04/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/03/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Pentreuchaf yn gymuned ddysgu gartrefol a chynhwysol sy'n meithrin lles disgyblion a staff yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel wrth ddysgu a chwarae, ac maent yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos cwrteisi a pharch tuag at eraill yn gyson.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar gefnogi disgyblion i ffynnu yn eu dysgu. Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi'n frwd gan staff a llywodraethwyr ymroddgar sy'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm ysgogol sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu'r wybodaeth a'r medrau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu dysgu. Mae athrawon yn gwneud defnydd medrus o ymwelwyr ac ymweliadau fel sbardun i'r themâu ac i danio diddordeb disgyblion. Mae'r iaith Gymraeg wrth galon yr ysgol ac mae balchder y disgyblion i'w defnyddio'n naturiol yn amlwg. Trwy brofiadau amrywiol, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o hanes a diwylliant eu hardal leol, y gymuned a'r byd ehangach. Ar y cyfan, mae staff yn cyflwyno tasgau sy'n addas ar gyfer cefnogi y rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau a gwneud cynnydd dros amser. Er hyn, nid yw'r arferion hyn bob amser yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn amrywiaeth o fedrau o'u mannau cychwyn, yn enwedig eu medrau llafar, ac maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni ac maent yn cael eu cynnwys yn gyson mewn digwyddiadau ac wrth rannu gwybodaeth berthnasol gyda nhw.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cysoni'r arferion addysgu a dysgu gorau er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau a gwneud cynnydd cyson dros amser

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar greu ysgol hapus a chroesawgar mewn cyd-destun lleol a Chymreig. Mae'r weledigaeth hon yn hyrwyddo ethos cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar wella profiadau lles a dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rhannu'r cyfeiriad hwn yn llwyddiannus gyda rhanddeiliaid yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun a'r staff, ac maent yn cydweithio'n effeithiol i wireddu nod yr ysgol, sef rhoi gwreiddiau cadarn ac adenydd er mwyn iddynt lwyddo yn eu camau nesaf. Mae ymddygiad ac ymrwymiad y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu dysgu a bywyd ehangach yr ysgol yn rhinwedd nodedig o'r ysgol.

Mae arweinwyr a staff wedi datblygu cwricwlwm sydd wedi'i seilio'n gadarn ym milltir sgwâr y disgyblion. Mae'r staff yn cydweithio'n agos â rhieni ac aelodau'r gymuned i gryfhau dealltwriaeth disgyblion o hanes, diwylliant a threftadaeth gyfoethog yr ardal yn fedrus. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried materion hanesyddol a daearyddol yn eu cymuned, yr ardal leol a'r byd ehangach. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda o'u rôl fel dinasyddion ysbrydol, moesegol a gwybodus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trafod effeithiau newid hinsawdd yn ddeallus ac yn egluro manteision ac anfanteision defnyddio ffynonellau ynni adnewyddol fel paneli solar a melinau gwynt.

Mae staff yn modelu geirfa sy'n gysylltiedig â'r themâu dysgu yn fedrus, sydd, yn ei dro, yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon, rhigymau a sgyrsiau syml. Mae'r disgyblion hynaf yn ymateb yn feddylgar i eraill, gan adeiladu ar eu syniadau yn llwyddiannus gan ddefnyddio mynegiant priodol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu agwedd gadarnhaol at ddarllen. Mae'r disgyblion hynaf yn darllen ystod eang o destunau gyda mynegiant pwrpasol ac yn trafod eu llyfrau'n aeddfed a gyda mwynhad.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus ac annibynnol sy'n mynegi eu hunain yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ffurfio llythrennau ac yn ysgrifennu geiriau syml yn fedrus gan ddefnyddio eu gwybodaeth ffonig yn effeithiol. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ansoddeiriau, idiomau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio offer digidol yn hyderus i gefnogi eu dysgu. Maent yn cymhwyso'u medrau yn briodol i gyfathrebu, ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth. Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd diogelwch ar y rhyngrwyd ac yn defnyddio technoleg yn gyfrifol fel rhan o'u dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn bwrpasol. Mae athrawon yn adeiladu ar y wybodaeth hon yn dda wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Erbyn brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu ac yn creu graffiau, dadansoddi data a datrys problemau yn fedrus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol cryf. Mae athrawon yn darparu profiadau cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu ystod o fedrau creadigol yn bwrpasol ar draws yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi gwaith artistiaid lleol ac yn efelychu eu technegau yn eu gwaith yn effeithiol. Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n llwyddiannus, er enghraifft mewn gwersi nofio.

Yn yr arfer orau, mae’r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda ynghyd â’u gallu i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Mae holi treiddgar gan staff yn helpu disgyblion i adalw dysgu blaenorol ac yn annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach am eu dysgu. Mae profiadau dysgu ysgogol yn tanio dychymyg disgyblion yn llwyddiannus ac, yn yr achosion hynny, mae disgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Er hyn, nid yw athrawon bob tro’n darparu tasgau sy’n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau a gwneud cynnydd cyson dros amser. Mae athrawon yn darparu adborth buddiol sy’n cefnogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda a’r hyn sydd angen ei wella yn eu gwaith. Ar y cyfan, mae disgyblion yn ymateb i’r adborth yn gadarnhaol.

Mae’r ysgol yn hybu Cymreictod ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, ac mae’r disgyblion yn falch iawn o’u hunaniaeth ac yn dangos ymrwymiad cryf i’r iaith Gymraeg. Mae’r disgyblion wedi cydweithio’n llwyddiannus ag aelodau o’u teulu ac artist lleol i gyfansoddi cân ‘Perthyn i’r Porthau’ sy’n cynorthwyo disgyblion i ddysgu a chofio enwau traddodiadol y porthladdoedd lleol.

Mae’r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau rheolaidd i godi arian at elusennau lleol a chenedlaethol. Maent yn rhannu gwybodaeth am eu gwaith yn rheolaidd gyda llywodraethwyr yr ysgol. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi medrau arwain y disgyblion yn dda. Mae’r disgyblion yn teimlo bod staff yn gwrando ac yn gweithredu ar eu syniadau yn amserol.

Fel rhan o weithdrefnau hunanwerthuso cadarn, mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth yn effeithiol i ddarparu darlun clir o berfformiad yr ysgol. Maent yn adnabod cryfderau’r ysgol a’r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn defnyddio’r wybodaeth i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant ac yn cydweithio’n bwrpasol i fynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae arweinwyr yn cynnig ystod lwyddiannus o gyfleoedd i staff gymryd

rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar wedi sicrhau cysondeb i ddysgu’r disgyblion sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau llythrennedd. Mae arweinwyr yr ysgol yn rheoli perfformiad y staff yn effeithiol ac yn eu cefnogi’n fwriadus i gael dysgu proffesiynol buddiol sy’n cyfateb i’w hanghenion personol a blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas weithiol gref â rhieni, ac yn sicrhau cyfathrebu clir â nhw. Mae rhieni hefyd yn cael gwybodaeth reolaidd am gynnydd eu plant drwy gyfathrebu perthnasol a darparu cyfleoedd iddynt ymweld â’r ysgol i ddathlu eu gwaith.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026